Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!



Dod i adnabod

Siân Llywelyn

Magwyd Siân Llywelyn ym Mhenrhyndeudraeth. Astudiodd am radd ar y cyd mewn Cymraeg a Cherddoriaeth, ac aeth ymlaen i ddilyn M.A mewn Ysgrifennu Creadigol. Bu Sian yn athrawes am 15 mlynedd.

Mae wedi profi llwyddiant mewn cystadlaethau ysgrifennu amrywiol yn Eisteddfodau Powys a Môn, a phan nad yw'n sgwennu mae'n treulio'i hamser hamdden yn cerdded, meddwi ar hanes Cymru, teithio a garddio.

Cyhoeddodd ei nofel gyntaf, *Drychwll*, yn 2020.

Crynodeb:

Mewn lleoliad anhysbys yn Nolgellau mae pencadlys DAROGAN, asiantaeth gudd sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau anesboniadwy a goruwchnaturiol. Wrth i Beca a Taran Fôn gydweithio i geisio datrys sawl dirgelwch, maent yn cael eu tynnu'n ôl i orffennol dyrys Cymru, ac yn darganfod nad o'r tu allan yn unig mae'r bygythiad.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Darogan*?

Yn syml iawn, hanes Cymru. Mae ein hanes ni'n llawn o'r hyn sydd wedi siapio Cymru heddiw ac mae digon o straeon i ddewis ohonynt. Dwi'n hoff o elfennau goruwchnaturiol mewn straeon hefyd, felly unwaith eto, fel yn fy nofel gyntaf, *Drychwll*, penderfynais gyfuno'r ddau beth.

O ble ydych chi'n cael eich ysbrydoliaeth?

Gwylio *The X-Files* oeddwn i yn ystod y cyfnod clo, a daeth y syniad i mi yn sydyn, wedyn dyma ddechrau ysgrifennu syniadau fel fflamia!

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod darllen llyfr yn mynd i fod yn ddiflas. Mae darllen yn ymarfer y meddwl mewn ffyrdd all sgrin gyfrifiadur neu deledu ddim ei wneud. Os ydych chi'n dymuno gwella eich darllen, dewch o hyd i griw o rai sy'n dymuno gwneud yr un peth a sefydlwch eich clwb darllen eich hun. Cofiwch hefyd bod gwahanol fathau o ffurfiau i'w darllen, nid straeon yn unig.

A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer teitlau pellach?

Ar hyn o bryd dwi'n dilyn doethuriaeth o dan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Bangor mewn Ysgrifennu Creadigol. Felly dwi'n gweithio ar nofel arall. Ei theitl am rŵan ydy 'Croesi Manogan', ond efallai y bydd hynny'n newid yn y pen draw.